Ysgol Dyffryn Conwy
ysgoldyffrynconwy.org

http://ysgoldyffrynconwy.org/index.html 01492 642800

*'Together we will reach our potential.' / 'Gyda'n gilydd cyrhaeddwn ein potensial'*

## Best GCSE Results in Conwy 2016!

Ysgol Dyffryn Conwy's Governing Body is delighted to announce that the school, in addition to gaining their best ever GCSE results this Summer also gained the best results in Conwy in the main GCSE indicators including the percentage of pupils who gained 5 A*-C GCSEs or more including Mathematics and Welsh and/or English. 73% of pupils gained this key indicator above the school's aspirational target of 70% and the Conwy average of 52% and all Wales average of 60%.

Headteacher, Elan Davies said, "I am delighted and very proud of the achievements of all our pupils and the hard work and dedication of staff that has resulted in these superb results. The results come as the result of strategic changes at the school over the last five years including changes in teaching and learning, developing literacy and numeracy and developing pupils' bilingual skills."

The school has been recognised by the Welsh Government as a **Case Study for best practice in Leading Literacy and Numeracy** – one of only 12 schools nationally to be recognised in this way. Further information about the school's leading work in this field can be found on the Welsh Government's '***Learning Wales'*** website: http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-literacy-and-numeracy-framework-case-studies/?lang=en.

The school's academic success is also supported by the extracurricular activities developed at the school. The School is delighted to have been named Conwy's '**School of the Year 2016'** for providing high quality PE and school sports for pupils. Our recent **Sports and Physical Education Awards Ceremony** showcased the wide and varied range of opportunities available at the school and the talent of our pupils across a range of sporting and physical activities. Further information about the award ceremony can be found on the school website.

We now look forward to our end of term showcase: **'Grease' the Musical on the 12th, 14th and 15th of December.** Tickets are available from the school reception.







## Canlyniadau TGAU Gorau Conwy 2016!

Mae Corff Llywodraethol Ysgol Dyffryn Conwy yn falch iawn o gyhoeddi fod yr ysgol, yn ychwanegol i ddathlu ein canlyniadau gorau Haf 2016, hefyd yn dathlu canlyniadau TGAU gorau Conwy yn y prif ddangosyddion TGAU gan gynnwys y canran o ddisgyblion sydd wedi llwyddo i gael 5A*-C neu fwy yn cynnwys Mathemateg a'r Gymraeg a/neu Saesneg. Llwyddodd 73% o'n disgyblion i gyrraedd y dangosydd hwn, yn uwch na thargedu uchelgeisiol yr ysgol o 70% a chyfartaledd Conwy o 52% a Chymru o 60%.

Wrth ddathlu nododd y Pennaeth, Elan Davies ei bod wrth ei bodd ac yn "falch iawn o lwyddiannau'r holl ddisgyblion ac o'r gwaith caled a dyfalbarhad gan ein staff sydd wedi dwyn ffrwyth yn y canlyniadau arbennig yma. Mae'r canlyniadau yn deillio o newidiadau sylweddol yn yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf gan gynnwys newidiadau mewn dysgu ac addysgu, datblygu llythrennedd a rhifedd a datblygu sgiliau dwyieithog disgyblion."

Yn sgil y gwaith hwn mae'r ysgol wedi ei hadnabod gan Lywodraeth Cymru fel un o 12 Astudiaeth Achos mewn arfer orau wrth arwain ar Lythrennedd a Rhifedd. http://learning.gov.wales/resources/browse-all/national-literacy-and-numeracy-framework-case-studies/?skip=1&lang=cy.

Mae llwyddiant academaidd yr ysgol hefyd yn cael ei ategu gan lwyddiannau mewn meysydd eraill gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon ac allgyrsiol. Enwebwyd yr ysgol fel '**Ysgol y Flwyddyn 2016**' am ein darpariaeth addysg gorfforol a chwaraeon o ansawdd uchel. Gwelwyd yr ystod eang o arlwy a llwyddiannau yn ystod **Noson Gwobrwyo Addysg Gorfforol a Chwaraeon** diweddar yr ysgol – ceir fwy o wybodaeth ar ein safwe.

Rydym bellach yn edrych ymlaen yn fawr at ein gwledd gerddorol ar ddiwedd y tymor – perfformiad o sioe gerdd **'Gris' ar y 12fed, 14eg a 15fed o Ragfyr.** Mae tocynnau ar gael o dderbynfa'r ysgol.



